**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

# ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

# CYNNIG: UNO YSGOL GYNRADD CEFN AC YSGOL GYNRADD CRAIG-YR-HESG ER MWYN SEFYDLU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL NEWYDD

## 1. Diben yr Adroddiad Gwrthwynebu

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol 006/2013. Ei ddiben yw:

- Llywio canlyniad cyhoeddi'r hysbysiadau statudol a gafodd eu cyhoeddi ar gyfer y cynnig yma ar 4 Ebrill 2022 am gyfnod o o leiaf 28 diwrnod; a
- Rhoi manylion am yr holl wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law ac ymateb yr Awdurdod Lleol iddyn nhw.

## 2. Yr Hysbysiadau Statudol

Mae'r Hysbysiad Statudol i ddatblygu'r cynnig yma, a gafodd ei gyhoeddi ar 4 Ebrill 2022, i'w gweld isod:

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT), ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Cau'r ysgolion canlynol sy'n cael eu cynnal gan Gyngor RhCT ar hyn o bryd:
    - Ysgol Gynradd y Cefn, Coedlan Cae-glas, Glyn-coch, Pontypridd CF37 3BD
    - Ysgol Gynradd Craig yr Hesg, Lôn y Cefn, Glyn-coch, Pontypridd CF37 3BP

2. Sefydlu Ysgol Gynradd Gymuned Cyfrwng Saesneg. Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn adeiladu ysgol newydd at y diben yma. Bydd yr ysgol gynradd newydd yma ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw (hen safle Uned Atgyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn).

Cynhaliodd Cyngor RhCT gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael yma:
https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/CurrentConsultations/ProposaltoamalgamateCefnPrimaryandCraigyrHesgPrimarySchools.aspx

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma erbyn 1 Medi 2026.

Mae'r cynnig yn nodi y bydd pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn symud i'r Ysgol Gynradd Gymuned Cyfrwng Saesneg newydd erbyn 1 Medi 2026, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

Ysgol Gynradd Gymuned Cyfrwng Saesneg fydd yr ysgol o dan y cynnig yma.

Cyngor RhCT fydd yr awdurdod derbyn, a fydd dim trefniadau ar gyfer bandio disgyblion.

Capasiti arfaethedig yr Ysgol Gynradd Gymuned Cyfrwng Saesneg newydd fydd 360 o ddisgyblion, gan gynnwys meithrinfa. Mae'r cynigion yn nodi y bydd 51 o ddisgyblion 4 oed yn cael lle yn y Dosbarth Derbyn yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor RhCT. Ar hyn o bryd, mae Cyngor RhCT yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion i fynd i'w hysgol gynradd, babanod neu ysgol iau agosaf a mwyaf addas os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 1.5 o filltiroedd cerdded o'r ysgol honno, neu os nad oes llwybr cerdded diogel ar gael. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at y dalgylch neu'r ysgol gyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol ddwy iaith, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig agosaf, fel y bo'n briodol.

Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yma cyn pen 28 diwrnod o'u cyhoeddi, hynny yw, erbyn 11 Mai 2022. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ. E-bost: CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk.

Bydd Cyngor RhCT yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

Llofnod:

Gaynor Davies

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dyddiad: 4 Ebrill 2022

## 3. Manylion y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law

Yn ystod y cyfnod Hysbysiad Statudol, daeth cyfanswm o 1 gwrthwynebiad i law erbyn y dyddiad cau sef 11 Mai 2022. Mae'r gwrthwynebiad yma wedi ei gynnwys isod ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiad.

## 4. Gwrthwynebiad ac Ymatebion

Mae'r gwrthwynebiad y manylir arno yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r iaith a ddefnyddiwyd yn y cyflwyniad. Mae'r tabl canlynol yn adlewyrchu hyn.

| **HYSBYSIAD STATUDOL – YMGYNGHORI AR GYNNIG I UNO YSGOL GYNRADD CEFN AC YSGOL GYNRADD CRAIG-YR-HESG ER MWYN SEFYDLU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL NEWYDD AR SAFLE NEWYDD**<br><br>**STATUTORY NOTICE – TO AMALGAMATE CEFN AND CRAIG YR HESG PRIMARY SCHOOLS TO CREATE A NEW COMMUNITY PRIMARY SCHOOL** |
|---|
| Fel y bydd yr awdurdod lleol yn gwybod, mae teimlad cryf yn yr ardal hon nad oes Ysgol Gynradd Gymraeg i ddiwallu anghenion yr ardal. Pan benderfynodd yr awdurdod gau Ysgol Gynradd Pont Sion Norton, bu ymgyrchwyr yn glir am yr angen am ysgol Gymraeg ar gyfer ardal ynysybwl, glyncoch, coedycwm, trallwn a cilfynydd. Gofynwyd i'r Cyngor ystyried y safle hwn ar gyfer ysgol o'r fath, gan nodi ei leoliad perffaith o ran trafnidiaeth gyhoeddus hefyd.<br><br>Os yw'r Cyngor yn ymrwymo i'r targed miliwn o siaradwyr Cymraeg, pa ffordd well hynny na diwallu'r angen drwy newid yr ysgol newydd i fod yn ysgol Gymraeg neu o leiaf i ddechrau yn un gyda ffrwd Gymraeg y gellir ei thyfu. Oes ystyriaeth wedi ei roi i hyn, gan weithio gyda ymgyrchwyr lleol ac i sicrhau mynediad cydradd i Addysg Gymraeg yn y rhan yma o'r Sir?<br><br>As the local authority will know, there is a strong feeling in this area that there is no Welsh Medium Primary School to meet the needs of the area. When the authority decided to close Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton, campaigners were clear about the need for a Welsh-medium school for the area of Ynysybwl, Glyncoch, Coed-y-cwm, Trallwng and Cilfynydd. The Council was asked to consider this site for such a school, also noting its perfect location for public transport.<br><br>If the Council commits itself to the target of one million Welsh speakers, what better way than to meet the need by changing the new school into a Welsh medium school or at least initially one with a growing Welsh stream. Has consideration been given to this, working with local campaigners and ensuring equal access to Welsh Medium Education in this part of the County? |

Ymateb:
Mae’r Cyngor wedi ymrwymo’n llwyr i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei tharged Cymraeg 2050 o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, ac mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi’i chasglu yn rhan o'r Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg a gafodd ei gynnwys yn y dogfennau ymgynghori ac sydd ar gael o hyd ar wefan y Cyngor.

Mae'r ysgol gynradd Gymraeg newydd a fydd yn agor ym mis Medi 2024 yn Rhydfelen wedi’i dylunio i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion sy’n dymuno dilyn addysg cyfrwng Cymraeg o’r ardaloedd wedi'u rhestri. Rydyn ni hefyd wedi sicrhau y bydd capasiti ychwanegol yn yr ysgol newydd i ddarparu ar gyfer twf yn nifer y disgyblion sy’n mynychu er mwyn cefnogi deilliant Cymraeg 2050 cyffredinol Llywodraeth Cymru ymhellach. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r ysgol yma a sicrhau bod yr holl staff, rhieni a gwarcheidwaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

Mae'r rhesymeg dros gyflwyno ysgol cyfrwng Saesneg newydd yng Nglyn-coch wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Mae angen atgyweiriadau sylweddol ar yr adeiladau ysgol presennol yn Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg a dydyn nhw ddim yn addas i'r diben bellach, ac mae dros £783,000 o gostau cynnal a chadw cyfunol yn weddill. Mae oedran ac adeiladwaith yr adeiladau yn atal naill ysgol rhag derbyn unrhyw waith gwella sylweddol a fyddai'n caniatáu iddyn nhw gael eu hystyried yn ddarpariaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Dydy safle Ysgol Gynradd Cefn ac adeilad yr ysgol ei hun ddim yn hygyrch ac nid yw’n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen gwelliant sylweddol hefyd ar Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai'r ysgol newydd yn gwbl hygyrch i'r holl staff, disgyblion yn ogystal â'r gymuned gan sicrhau bod modd gwneud defnydd llawn o gyfleusterau'r ysgol gan sicrhau ein bod yn gyrru ymlaen ac yn cefnogi agenda 'canolbwyntio ar y gymuned' Llywodraeth Cymru. Bydd cyfleusterau allanol helaeth yr ysgol newydd, gan gynnwys Ardal Gemau Aml-ddefnydd, yn galluogi staff, disgyblion a'r gymuned i elwa ar ystod ehangach o brofiadau addysgu a dysgu.

Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn effeithlon o ran ynni a bydd ganddi systemau ynni adnewyddadwy gan gynnwys paneli ffotofoltaidd a system casglu dŵr glaw. Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu i safonau Ardderchog BREEAM, a bydd yn gweithredu’n Garbon Sero-Net, gan gyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i’r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor ar gyfer 2021-2025 a’r nod uchelgeisiol o fod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030.

Bydd y safle a ddefnyddir ar gyfer yr ysgol newydd yn ymgorffori safle presennol Ysgol Craig-yr-Hesg yn ogystal â'r tir cyfagos iddo (safle Tŷ Gwyn yn flaenorol). Dydy'r tir gerllaw'r ysgol ddim yn ddigon mawr ar gyfer ysgol heb ddefnyddio safle presennol yr ysgol. Yn unol â Bwletin Adeiladu 99, i gynnwys ysgol o'r maint yma gyda'r ardaloedd allanol priodol, mae angen safle o tua 1.5ha. Mae'r ddau safle gyda'i gilydd yn darparu ardal o tua 1.6ha.

Mae'r Cyngor o'r gred bod y cynnig yma'n cynrychioli'r cyfle gorau i ddiogelu safonau addysgol ar gyfer y dyfodol a'i fod yn darparu platfform ar gyfer gwelliannau trwy fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau parhaol ac addas i'r diben. Mae'n darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen i fodloni'r cwricwlwm newydd gan alluogi athrawon i ganolbwyntio ar sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl. Bydd yn gwbl hygyrch, bydd yn darparu mannau awyr agored o safon nid yn unig i'r ysgol ond i'r Gymuned ehangach gan gyflawni'r agenda Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned, a bydd yn cyflawni Carbon Sero-Net gan gefnogi targed uchelgeisiol y Cyngor o fod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030.

The Council is fully committed in supporting the Welsh Government in achieving its Cymraeg 2050 target of creating one million Welsh speakers, and further information on this has been captured within the Welsh Language Impact Assessment which was included within the consultation documentation and can still be found on the Council's website.

The new Welsh medium primary school, which will open in September 2024 in Rhydyfelin, has been designed to accommodate all pupils that wish to pursue a Welsh medium education from the areas listed. We have also ensured that there has been additional capacity designed into the new school to accommodate growth in the number of pupils attending to further support the Welsh Government's overarching Cymraeg 2050 outcome. We will continue to work with relevant stakeholders in the development of this school and ensure that all staff, parents and carers, are kept up to date with progress.

The rationale for delivering a new English medium school in Glyncoch is contained within the consultation document. The existing school buildings at Cefn and Craig yr Hesg Primary Schools require significant repairs and are no longer fit-for-purpose, with collective outstanding maintenance costs of more than £783,000. The age and construction of the buildings prevent either school from receiving any significant upgrades which would allow them to be deemed a 21st Century Schools' provision.

The site of Cefn Primary and the school building itself is not accessible and does not comply with the Equality Act 2010, and Craig yr Hesg Primary also requires significant improvement to comply with the Equality Act 2010. The new school would be fully accessible for all staff, pupils as well as the community ensuring that the facilities at the school can be fully utilised ensuring we drive forward and support the Welsh Government's community focussed agenda. The new school's extensive external facilities, including a Multi-Use Games Area, will allow staff, pupils, and the community to benefit from a greater breadth of teaching and learning experiences.

The school will be designed to be energy efficient and will include renewable energy systems including photovoltaic panels and rainwater harvesting. The school will be built to BREEAM Excellent standards, and will be Net Zero Carbon in operation, contributing to the delivery of the Council's Tackling Climate Change Strategy for 2021-2025 and the ambitious goal of being a carbon neutral Council by 2030.

The site that will be used to accommodate the new school will incorporate the existing Craig yr Hesg School site as well as the land adjacent to it (formerly the Ty Gwyn site). The land adjacent to the school is not large enough to accommodate a school without utilising the existing school site. In accordance with Building Bulletin 99, to accommodate a school of this size with the appropriate external areas, a site of approximately 1.5ha is needed, both sites cumulatively provide an area of circa 1.6ha.

The Council believes that this proposal represents the best opportunity to safeguard educational standards for the future and provides a platform for improvement through significant investment in permanent and fit-for-purpose facilities. It delivers the facilities required to meet the new curriculum allowing teachers to focus on maximising educational outcomes. It will be fully accessible, it will provide quality outdoor spaces not just for the school but the wider Community delivering